OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2001 Rhif 3666 (Cy. 298 )

# HADAU, CYMRU

## Rheoliadau Tatws Hadyd (Diwylgio) (Cymru) 2001

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | *- -* | *8 Tachwedd 2001* |
| *Yn dod i rym* | *- -* | *29 Tachwedd 2001* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau o dan adrannau 16(1), (1A), (2), (3), (4) a (5) a 36 o Ddeddf Amrywiadau a Hadau Planhigion 1964(**1**) sydd bellach wedi'u breinio ynddo(**2**) a phob pŵer arall sy'n ei alluogi yn y cyswlt hwnnw, ar ôl ymgynghori, yn unol ag adran 16(1) o'r Ddeddf honno, â chynrychiolwyr y buddiannau hynny y mae'n ymddangos iddo eu bod o bwys iddynt, drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

(**1**) 1964 p.14; diwygiwyd adran 16 gan adran 4(1) o Ddeddf Cymunedau Ewrop 1972 (p.68) a pharagraff 5(1), (2) a (3) o Atodlen 4 iddi.

(**2**) *Gweler* adran 38(1) i gael diffiniad o "the Minister". O dan Orchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau (Cymru) (Rhif 1) 1978 (O.S. 1978/272), erthygl 2(1) ac Atodlen 1, trosglwyddwyd swyddogaethau'r Gweinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd o dan Ddeddf Amrywiadau a Hadau Planhigion 1964, i'r graddau y maent yn arferadwy mewn perthynas â Chymru, i'r Ysgrifennydd Gwladol. Cafodd swyddogaethau a enwyd yr Ysgrifennydd Gwladol eu trosglwyddo i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), y cafwyd diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.